

Cynhaliwyd cyfarfod o Gyngor Cymuned Talyllychau yn Ysgol Gynradd Gymunedol Talyllychau ddydd Mawrth, 3 Ebrill 2018 am 7.30 p.m.

Roedd yr aelodau canlynol yn bresennol: Y Cynghorwyr Marged Bowen (Yn y Gadair) John Williams, Janine Roberts, Nigel Lovatt, y Cynghorydd Sir Joseph Davies a Jane Morgan (Clerc). Ymddiheuriadau: Rhys Williams, Eifion Roberts.

Ni nodwyd unrhyw Ddatganiad o Fuddiant.

Cytunwyd bod cofnodion y cyfarfod blaenorol yn gywir.

Gwiriwyd y Datganiad o Gyfrif. Balans y cyfrif ar 28.03.2018 Chwefror 2018 oedd £4,319.36. Janine Roberts.

Materion sy'n codi.

Y Toiledau Cludadwy. Roedd Pat Bazzard wedi ymddiheuro am fethu symud y toiledau oherwydd y tywydd gwlyb iawn a gafwyd yn ddiweddar. Byddent yn cael eu symud cyn gynted ag y byddai'r tywydd yn gwella.

Y Toiledau Cyhoeddus. Roedd ymateb wedi dod i law gan R.J.R. Davies o Gyngor Sir Caerfyrddin, a oedd yn dweud y byddai'r cyfleuster hwn yn cau yn unol â'r cyfleusterau eraill nad oedd y Cynghorau Tref a Chymuned mewn sefyllfa i ysgwyddo'r cyfrifoldeb amdanynt.

Diffibrilwyr. Roedd ymateb wedi dod i law gan K.D. Phillips o Adran Gynllunio Cyngor Sir Caerfyrddin ynghylch adleoli'r diffibriliwr yng Nghwm-du. Cytunwyd, yn unol â'r cais, y byddai lluniau digidol o'r lleoliad presennol a'r lleoliadau newydd arfaethedig yn cael eu hanfon ymlaen.

Cytunwyd i brynu tri fflachlamp a menig tafladwy gan D.L. Williams ar gyfer cabinet y diffibriliwr.

Y Meysydd Cymunedol a'r Meysydd Chwarae. Cytunwyd i gynnal cyfarfod ar y safle nos Fawrth 10 Ebrill 2018 am 6 p.m.

Cyflog y Clerc. Fel y cytunwyd yn y cyfarfod blaenorol, byddai Cyflog y Clerc yn cael ei gynyddu i £2,000 y flwyddyn. Swm Gros misol £166.66. Treth fisol £31.20. Swm Net misol £135.46. Cafwyd caniatâd i ddiwygio'r archeb sefydlog i £135.46 o 28.04.2018 ymlaen.

Roedd y Cyflwyniadau Ariannol ar gyfer y flwyddyn dreth hyd at 5 Ebrill 2018 wedi cael eu cwblhau. Roedd y Dystysgrif Diwedd Blwyddyn P60 wedi cael ei hargraffu. Roedd yr hysbysiad o godau treth gweithwyr ar gyfer y flwyddyn dreth hyd at 5 Ebrill 2019 wedi dod i law, ac wedi cael ei ddiwygio'n briodol.

Yr Archwilydd Mewnol. Dywedwyd mai'r ffi am gwblhau Archwiliad Mewnol ar gyfer y flwyddyn 2017-18 fyddai £170.

Rheoli Traffig. Roedd ymateb wedi dod i law gan J.M. McEvoy o Gyngor Sir Caerfyrddin yn dweud y byddai'n hapus i gynnal ymweliad safle i ystyried dichonoldeb y cais am Ddangosyddion Cyflymder Solar. Cytunwyd i gyfarfod â Mr. McEvoy ar adeg a fyddai'n gyfleus iddo ef.

Y Cinio Blynyddol. Cadarnhawyd y byddai'r cinio blynyddol yn cael ei gynnal ar 20 Ebrill 2018 yn The Plough, Rhosmaen. Cytunwyd y dylai'r Cadeirydd gael treuliau hyd at £200.00.

Y Bwrdd Claddu. Cafwyd neges e-bost gan Un Llais Cymru. I'w thrafod yng nghyfarfod y mis nesaf.

Y Rheoliad Diogelu Data Cyffredinol. Roedd y Clerc wedi cysylltu ag Un Llais Cymru, a fyddai'n ffonio'n ôl i drafod y mater. Gobeithid y byddai rhagor o wybodaeth ar gael erbyn y cyfarfod nesaf.

Cynllun Datblygu Lleol (CDLI) Sir Gaerfyrddin. Byddai'r cyfnod ymgynghori yn para am 16 wythnos; y dyddiad cau fyddai 2 p.m. ddydd Mawrth 29.05.2018. Ni fyddai

unrhyw gynigion ar gyfer safleoedd posibl a gyflwynid ar ôl y dyddiad hwn yn cael eu hystyried.

Gohebiaeth.

Cytunwyd i dalu'r canlynol:

Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi – £30.20.

Shaw & Sons. Albwm Cofnodion Newydd – £149.69.

Llogi Ysgolion Cyngor Sir Caerfyrddin ar gyfer Cyfarfodydd rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2018 – £70.00.

Dosbarthwyd a thrafodwyd yr ohebiaeth ganlynol:

Comisiwn Ffiniau a Democratiaeth Leol Cymru. Canllawiau i'r Prif Gynghorau ar adolygu Cymunedau.

Ymateb Un Llais Cymru i Adolygiad y Cynghorau Cymuned a Thref.

Neges e-bost gan Sovereign Playgrounds.

Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda. Ynghylch: Trawsnewid Ein Gwasanaeth Iechyd.

Ymgynghoriad ynghylch gwasanaethau gofal iechyd. Bwriedid cynnal digwyddiad y Cynghorau Cymuned a Thref yn Sir Gaerfyrddin nos Fercher 25/04/2018 am 6 p.m. yn Neuadd Ddinesig Sam Pedr, Caerfyrddin.

Mynwent yr Eglwys. Cafwyd a dosbarthwyd neges e-bost ynghylch y ddôl wyllt a drafodwyd.

Torri Glaswellt Mynwent Talylychau. Roedd tri thendr wedi dod i law. Yn dilyn trafodaeth, cynigiwyd y dylai'r tendr gan Grave Concerns M & J Maintenance, a oedd yn werth £2,150.00, gael ei dderbyn, a chytunwyd ar hynny. Byddai'r Clerc yn rhoi gwybod i'r ddau dendrwr arall nad oeddent wedi bod yn llwyddiannus ar yr achlysur hwnnw.

Tendr Torri Glaswellt y Maes Cymunedol. Roedd un tendr wedi dod i law gan Frankie Lewis am £110.00 fesul toriad. Cytunwyd i dderbyn y tender hwnnw.

Y Fantolen Flynyddol. Cafodd y Datganiad o Gyfrifon fel yr oedd ar 31 Mawrth 2018 ei ddisbarthu a'i drafod. Balans y Cyfrif Cyfredol £4,319.36. Cysoniad: Datganiad o Falans y Cyfrif Cyfredol £4,319,36. Cytunwyd gan bawb i dderbyn eu bod yn gywir. Llofnodwyd gan Jane Morgan (Clerc) a Marged Bowen (Cadeirydd). Byddai copïau'n cael eu rhoi ar y ddau Hysbysfwrdd, ac ar y Wefan.

Cafwyd neges e-bost gan Grant Thornton UK LLP ynghylch y Ffurflenni Blynyddol. Roedd y neges yn dweud y byddai'r Ffurflenni Blynyddol yn cyrraedd yn hwyr eleni, a hynny yn sgil oedi o ran eu hargraffu gan Swyddfa Archwilio Cymru. Gobeithid y byddent yn cyrraedd yn yr ychydig wythnosau nesaf, ac ymddiheurwyd am unrhyw anghyfleustra y gallai hynny ei achosi.

Daeth y cyfarfod i ben tua 10.10 p.m. Byddai'r cyfarfod nesaf, sef y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol, yn cael ei gynnal ddydd Mawrth 1 Mai 2018.